**Trefniadau’r Cylch pe byddai achos o'r coronafeirws wedi ei gadarnhau yma.**

Os y bydd yr Cylch yn derbyn cadarnhad o achos coronafeirws yn y Cylch byddwn yn adnabod pob disgybl sydd wedi rhannu swigen â’r person hwnnw yn unol â chanllaw sydd wedi eu gytuno gan yr Awdurdod Lleol a gwasanaeth Profi Olrhain a Diogelu Gwynedd.

Yn ddibynnol ar amgylchiadau unigol, fe all hyn gynnwys swigen ddosbarth, clybiau cyn neu ar ôl ysgol neu rai sydd wedi rhannu cludiant i’r Cylch. Os y byddwn yn derbyn cadarnhad yn ystod diwrnod Cylch fe fyddwch yn derbyn neges a fydd yn gofyn i chi ddod i nôl eich plentyn o’r Cylch yn syth. Ni fydd caniatâd i’ch plentyn fynd adref ar gludiant cyhoeddus.

Os y byddwn yn derbyn cadarnhad y tu allan i oriau Cylch fe fyddwch yn derbyn neges a fydd yn gofyn i chi gadw eich plentyn adref. Fe fydd yn ofynnol i'ch plentyn aros gartref, peidio â mynychu’r Cylch, peidio mynd allan i wneud ymarfer corff, peidio ymweld â siopau, teulu na ffrindiau, na mynd i fannau cyhoeddus eraill. Ni ddylech wahodd pobl i'ch tŷ. Bydd aelod o dîm Profi, Olrhain a Diogelu Gogledd Cymru yn cysylltu â chi maes o law i egluro’r sefyllfa ac i gadarnhau tan bryd fydd rhaid i’ch plentyn ynysu.

Os bydd eich plentyn yn aros yn iach ni fydd angen i aelodau eraill yr aelwyd ynysu a gallant barhau â'u gweithgareddau arferol. Os nad yw eich plentyn wedi ei adnabod fel rhan o’r swigen cyswllt agos y person sydd wedi profi’n bositif yna bydd disgwyl i’ch plentyn barhau i fynychu’r Cylch.

Gofynnir i holl rieni’r Cylch ddilyn canllawiau’r Cylch yn y mater hwn yn hytrach na dilyn unrhyw wybodaeth answyddogol a rennir ar y cyfryngau cymdeithasol.